# Canolfan Saith Seren
# Ionawr-Chwefror 2017






Ar ôl cau Siop y Siswrn, penderfynwyd creu partneriaeth gyda Lowri o Siop Cwlwm, Croesoswallt, i gynnal Siop Wib yn Saith Seren pob pythefnos.




Buon ni'n dath;lu ein pen-blwydd yn 5 oed gyda pharti gwych yng nghwmni Côr Orffiws y Rhos ar ddiwedd mis Ionawr



Roedd y noson ble cyfunwyd Clwb Clebran nos Lun gyda'r clwb llenyddol 'Viva Voce' yn llwyddiant ysgubol.




Rydyn ni'n lwcus iawn o'r bandiau lleol gwych sy'n denu cwsmeriaid pob nos Sadwrn. Dyma'r 'Made in Wales' yn perfformio.



Cawsom noson hyfryd yng nghwmni Huw Chiswell. Bu'n adrodd y straeon y tu ô i'w ganeuon ac roedd pawb o'r gynulleidfa wrth eu boddau.



Daeth Theatr Ifanc y Rhos i Saith Seren i ddathlu diwedd y tymor perfformio, a daeth capten CPD Wrecsam, Robbie Evans i gyflwyno'r gwobrau.

# Canolfan Saith Seren
# Mawrth 2017






Dechreuwyd ein dathliadau Dydd Gwyl Dewi gyda disgo llwyddiannus i blant ysgolion cynradd y dref gyda'r DJ Owain Llyr.



Ar y penwythnos, daeth blant o Ysgol Bodhyfryd, ac ysgolion eraill i ganu mewn 'Steddfod bach'.



Yn dilyn y plant bach, perfformiodd band 'Paradwys' gan swyno'r dorf. Mae Talulha, Erin, Elizabeth, Lucy ac Elin yn ddisgyblion Ysgol Morgan Llwyd.



Perfformiodd 'Blue Genes' set o ganeuon hyfryd ar nos Sadwrn. Mae Stephen, Kay, a'u merch Megan yn siaradwyr Cymraeg o Goedpoeth.



Uchafbwynt y dathliadau oedd ymweliad y band 'Daniel Lloyd a Mr. Pinc'. Trefnwyd aduniad i gyn-ddisgyblion YMLl a chafwyd noson fythgofiadwy!



Yn hwyrach yn y mis daeth y band gwerin Gwibdaith Hen Fran a chawsom noson hwyliog dros ben gyda'r bar yn llawn dop.

# Canolfan Saith Seren Mawrth-Ebrill 2017






Daeth y comediwr Emyr Himyrs Jones i'n difyru a chawsom noson hwyliog dros ben.



Mae'r cwis dwyieithog misol yn mynd o nerth i nerth. Dowch i'r nesaf ar y 6ed o Fehefin.



Roedd noson Siocled a Gwin a drefnwyd gan Menter Maelor yn llwyddiannus iawn gyda deuagin o bobl yn mynychu'r digwyddiad.



Diolch yn fawr i Einir Jones Merched y Wawr am drefnu ymwelaid y band gwerin o Ben Llyn, 'Patrobas' i'r ganolfan. Roedden nhw'n wirioneddol wych ac yn hogia clen.



Diolch hefyd i Glwb Clebran am drefnu noson hyfryd gyda Manon Steffan Ros yn perfformio ei chaneuon swynol.



Mae'r diolch olaf yn mynd at Aled Lewis Evans am drefnu nosnn gydag Alys Conran oedd yn rhan o Ŵyl Eiriau Wrecsam